Technoleg Cerdd

(Dyfarniad Cyntaf BTEC Lefel 2 mewn Cerddoriaeth)

2017-18

Beth fyddaf yn dysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Sut i berfformio mewn grŵp cerddorol.
- Sut i ymarfer fel grŵp cerddorol
- Sut i ddatblygu sgiliau yn y maes technoleg cerdd.
- Sut y mae'r diwydiant cerdd yn gweithio

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei addysgu yn Coleg Menai, Bangor am ddwy awr **ar ôl ysgol (4yp-6yp)** ar brynhawn dydd Llun. **Mae'n gwrs blwyddyn** ac yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Bydd yna gyfleoedd i gydweithio mewn grŵp ac i gyflwyno gwaith yn unigol. Fe fydd disgyblion gan amlaf yn gweithio ar systemau gyfrifiadurol, gyda gwaith ehangach yn dibynnu ar gynllunio ac adrodd yn ôl.

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol gallu perfformio ar offeryn cerdd o unrhyw fath ac hefyd bod gyda diddordeb yn y maes technoleg cerdd.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd arholiad allanol mewn un uned, asesiad parhaol i'r ymarferion/ perfformiadau a bydd aseiniadau yn cael eu cwblhau yn y coleg a'u hasesu yn fewnol ac allanol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Byddwch yn darfod y cwrs ar ddiwedd Blwyddyn 10. Ar ôl gorffen eich TGAU, mae modd symud ymlaen drwy wneud mwy o unedau er mwyn ennill BTEC Lefel 2 Diploma neu BTEC Lefel 3 Diploma Atodol/Diploma/ Diploma Estynedig mewn cerddoriaeth yng Ngholeg Menai. Mae'r cwrs hefyd yn meithrin yr agwedd broffesiynol sydd yn rhan allweddol o gyd-chwarae mewn band. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Perfformio
- Recordio
- Teledu-sain
- Llwybrau ehangach o fewn y diwydiant cerdd

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol: http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/music-2013-nqf.html

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com